Department for Environment Food & Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymgynghoriad ar ddiwygiadau arfaethedig i Reoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Gwaredu Biffenylau Polyclorinedig a Sylweddau Peryglus Eraill) (Cymru a Lloegr)

Dyddiad: 19 Mai 2023

Ni yw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Ni sy'n gyfrifol am wella a diogelu'r amgylchedd, tyfu'r economi gwyrdd, cynnal cymunedau gwledig ffyniannus a chefnogi'n diwydiannau bwyd, ffermio a physgota o'r radd flaenaf.

Rydym yn gweithio'n agos gyda 33 o asiantaethau a chyrff hyd braich ar ein huchelgais i wneud ein haer yn burach, ein dŵr yn lanach, ein tir yn wyrddach a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd i'r genhedlaeth nesaf, a'i adael mewn cyflwr gwell nag y cawson ni'r amgylchedd ynddo.

© Hawlfraint y Goron 2023

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylai unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn gael eu hanfon aton ni yn:

Consultation Coordinator,
Defra 2nd Floor,
Foss House,
Kings Pool,
1 to 2 Peasholme Green,
York,
YO1 7PX

Neu drwy'r ebost: consultation.coordinator@defra.gov.uk

www.gov.uk/defra

Cynnwys

Ymgynghoriad ar ddiwygiadau arfaethedig i Reoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Gwaredu Biffenylau Polyclorinedig a Sylweddau Peryglus Eraill) (Cymru a Lloegr) .1

Rhagair

Y cyd-destun 4

Y cefndir 4

Diben yr ymgynghoriad 5

Y llywodrathau datganoledig 5

Ymateb i'r ymgynghoriad hwn 6

Hyd 6

Yr hyn a wnawn ni ar ôl yr ymgynghoriad 7

Cyfrinachedd a diogelu data 7

Cwestiynau ymgynghori 9

- Cyfrinachedd a manylion amdanoch chi 9
- Cwestiynau am yr offeryn statudol drafft 10
  - Diwygio Rheoliad 4(3A) 10
  - Diwygio Rheoliad 4(3C) 11
  - Diwygio Rheoliad 4(4)(a) 12
  - Diwygio Rheoliad 5(3) 13
  - Cyffredinol 14

Rhagair

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau ar newidiadau arfaethedig i Reoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Biffenylau Polyclorinedig a Sylweddau Peryglus Eraill) (Cymru a Lloegr) 2000 (OS 2000/1043), fel y'u diwygiwyd ("Rheoliadau PCBs").

Y cyd-destun

Mae PCBs yn perthyn i deulu eang o gyfansoddion organig cemegol sydd wedi'u gwneud gan ddyn, gydag ystod o wenwyndra a all achosi effeithiau difrifol ar iechyd mewn pobl ac anifeiliaid. Mae defnyddio a chynhyrchu PCBs yn anghyfreithlon yn y Deyrnas Unedig ers 1987. Er hynny, mae PCBs yn dal i gael eu defnyddio, yn bennaf o fewn offer yn ein seilwaith ynni cenedlaethol.

Mae'r Deyrnas Unedig yn barti i Gonfensiwn Stockholm, sef cytuniad byd-eang sy'n rhestru 31 o sylweddau cemegol o'r enw Llygryddion Organig Parhaus (POPs), ac un o'r rhain yw'r grŵp o gemegau o'r enw biffenylau polyclorinedig (PCBs). Mae gan POPs bedwar prif faen prawf: maent yn barhaus, yn wenwynig, yn fio-gronnol, a gellir eu cludo ar draws ffiniau rhyngwladol. Nod Confensiwn Stockholm yw diogelu iechyd pobl a'r amgylchedd trwy wahardd, dileu neu gyfyngu ar gynhyrchu a defnyddio POPs yn fyd-eang. Rhestrir PCBs yn Atodiad A i Gonfensiwn Stockholm ar gyfer POPs, sy'n golygu bod rhaid i'r Partïon i'r Confensiwn wahardd a/neu weithio tuag at ddileu'r cemegyn hwn rhag cael ei gynhyrchu neu ei ddefnyddio. A hithau'n Barti i Gonfensiwn Stockholm, mae'r Deyrnas Unedig wedi ymrwymo i gyfyngu a/neu ddileu'r POPs hyn yn fyd-eang.

Yn y Deyrnas Unedig, mae Rheoliad (UE) 2019/1021 a ddargedwir (y "Rheoliad POPs a ddargedwir ") yn rheoleiddio cynhyrchu, gosod ar y farchnad, a defnyddio POPs sydd wedi'u gwahardd neu wedi'u cyfyngu o dan Gonfensiwn Stockholm.

Cafodd y Rheoliadau PCBs, sy'n ymwneud â rheoli PCBs yng Nghymru a Lloegr, eu cyflwyno yn 2000, sef cyn dyddiad Confensiwn Stockholm ar POPs (a fabwysiadwyd yn 2001) a Rheoliadau POPs ehangach yr UE (a ddatblygwyd yn 2004 i roi Confensiwn Stockholm ar waith yn yr UE, ac a ail-luniwyd wedyn yn 2019 fel Rheoliad (UE) 2019/1021). Mae'r Rheoliadau PCBs yn rheoleiddio'n benodol ddefnyddio PCBs a'u rheolaeth, gan gynnwys cofrestru offer sy'n cynnwys PCBs, yn ychwanegol at y rheoleiddio cyffredinol ar PCBs a POPs eraill yn unol â'r manylion yn y Rheoliad POPs a ddargedwir .

Y cefndir

Yn unol â rhwymedigaethau o dan Gonfensiwn Stockholm, cafodd y Rheoliad POPs a ddargedwir ei ail-lunio yn 2019 er mwyn, ymhlith pethau eraill, ei gwneud yn ofynnol i offer penodol sy'n cynnwys PCBs gael ei adnabod a rhoi'r gorau i'w ddefnyddio cyn gynted â phosibl a heb fod yn hwyrach na 31 Rhagfyr 2025. O ganlyniad, cafodd diwygiadau eu gwneud i'r Rheoliadau PCBs trwy Reoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Gwaredu Biffenylau

Polyclorinedig a Sylweddau Peryglus Eraill) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2020 (OS 2020/489).

Yn sgil ymgysylltu â rhanddeiliaid ers i'r diwygiad hwnnw ddod i rym, mae Defra wedi cael gwybod bod angen eglurder pellach yn y cyfeiriadau at offer penodol sy'n cynnwys PCBs yn unol â'r manylion yn y Rheoliadau PCBs. Bydd hyn yn sicrhau eglurder ynghylch pa offer sy'n cynnwys PCBs y mae angen rhoi'r gorau i'w defnyddio erbyn 31 Rhagfyr 2025

Mae'r Offeryn Statudol (OS) arfaethedig hwn yn darparu eglurder ychwanegol i adlewyrchu bwriad polisi gwreiddiol y Rheoliadau PCBs presennol. Nid yw'n cynnwys unrhyw safbwyntiau polisi newydd ac nid ydym yn rhag-weld y byddai'r diwygiadau eglurhaol arfaethedig yn yr OS drafft hwn yn creu unrhyw faich ariannol ychwanegol i fusnesau'r Deyrnas Unedig. Gan hynny, does dim asesiad effaith newydd ochr yn ochr â'r OS drafft hwn. Gellir gweld yr asesiad effaith gwreiddiol, fel y'i lluniwyd pan gyflwynwyd y polisi hwn gyntaf, yma:

https://www.gov.uk/government/publications/removal-of-equipment-containing-polychlorinated-biphenyls-pcbs-by-2025-rpc-opinion.

Diben yr ymgynghoriad

Diben yr ymgynghoriad hwn yw gofyn barn y rhanddeiliaid ar ddrafft o'r offeryn statudol arfaethedig a fydd yn diwygio'r Rheoliadau PCBs, gan ddefnyddio pwerau yn adran 2 o Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999.

Rydym yn gofyn am gadarnhad gan y rhanddeiliaid y bydd y diwygiadau arfaethedig i'r Rheoliadau PCBs yn egluro'r gofynion ar gyfer cael gwared ar offer sy'n cynnwys PCBs erbyn diwedd 2025.

Y llywodraethau datganoledig

Mae'r adrannau o lywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig sydd â rôl weithredu a/neu orfodi ar gyfer Confensiwn Stockholm yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), Llywodraeth yr Alban ac Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon (DAERA).

Yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae'r cyfrifoldeb am orfodi deddfwriaeth cemegau amgylcheddol yn gorwedd yn bennaf yn nwylo'r cyrff a ganlyn, sy'n cael eu hadnabod fel Awdurdodau Cymwys: yng Nghymru, Cyfoeth Naturiol Cymru; yn Lloegr, Asiantaeth yr Amgylchedd (EA); yn yr Alban, Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban (SEPA); ac yng Ngogledd Iwerddon, Asiantaeth Amgylchedd Gogledd Iwerddon (NIEA) (asiantaeth weithredol o Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon).

Mae'r Rheoliadau PCBs yn gymwys i diriogaeth Cymru a Lloegr yn unig. Mae deddfwriaeth ar wahân yn gymwys yn yr Alban (Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd

(Gwaredu Biffenylau Polyclorinedig a Sylweddau Peryglus Eraill) (Yr Alban) 2000/95, fel y'u diwygiwyd) ac yng Ngogledd Iwerddon (Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Gwaredu Biffenylau Polyclorinedig a Sylweddau Peryglus Eraill) (Gogledd Iwerddon) 2000/232), ac mae perchnogaeth y rheoliadau hynny a'r cyfrifoldeb dros eu diwygio yn nwylo Llywodraeth yr Alban a DAERA, yn y drefn honno.

Y bwriad ar hyn o bryd yw y bydd y diwygiadau a'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn yn cael eu cymhwyso at Gymru a Lloegr yn unig. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhan o waith paratoi'r OS drafft a'r ymgynghoriad hwn. Mae hwn yn ymgynghoriad ar y cyd sy'n cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Pan fo modd, ymatebwch i'r ymgynghoriad hwn ar-lein gan ddefnyddio hyb ymgynghori Citizen Space yn Defra https://consult.defra.gov.uk/pops-and-chemicals-in-wasteteam/amendments-to-pops-regulation

Pan nad yw hyn yn bosibl, darperir opsiynau eraill isod os oes eu hangen:

Drwy'r ebost: POPs@defra.gov.uk

Drwy'r post: Consultation Coordinator, Defra 2nd Floor, Foss House, Kings Pool, 1 to 2 Peasholme Green, York, YO1 7PX

Mae Defra yn rheoli'r broses ymgynghori ar ran Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Os hoffech anfon copi o'ch ymateb i'r ymgynghoriad yn uniongyrchol at Lywodraeth Cymru, yna anfonwch at y cyfeiriad ebost a ganlyn: chemicalscemegion@llyw.cymru

Bydd eich ymateb yn fwyaf defnyddiol o'i lunio mewn ymateb uniongyrchol i'r cwestiynau a ofynnir, er bod croeso i sylwadau a thystiolaeth bellach hefyd.

Hyd

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn para am 6 wythnos. Rydym yn credu bod y cyfnod hwn yn briodol ac yn gymesur o gofio natur a rhychwant yr ymgynghoriad hwn. Agorodd yr ymgynghoriad ar 19 Mai 2023 ac mae'n cau ar 30 Mehefin 2023. Sylwch: rhaid i unrhyw ymatebion a anfonir drwy'r post gyrraedd y cyfeiriad uchod erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad. Yn anffodus, ni fydd unrhyw ymatebion sy'n dod i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu dadansoddi. Er mwyn sicrhau bod eich ymateb yn cael ei gynnwys yn y dadansoddiad, ystyriwch ymateb ar-lein trwy Citizen Space.

I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Defra yn casglu, prosesu a storio'ch data, gweler yr hysbysiad preifatrwydd ymgynghori, sydd wedi'i gadw ar Citizen Space.

Yr hyn a wnawn ni ar ôl yr ymgynghoriad

Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi a'i osod ar wefan y llywodraeth yn www.gov.uk, a gall hefyd gael ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

Bydd y crynodeb yn cynnwys rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd, ond nid enwau personol, cyfeiriadau neu fanylion cyswllt eraill pobl. Er hynny, gall gwybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei rhyddhau i bartïon eraill, neu ei datgelu yn unol â chyfundrefnau gwybodaeth, megis Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 2018.

Os ydych yn dymuno i wybodaeth, gan gynnwys data personol, rydych chi'n ei rhoi gael ei thrin yn gyfrinachol, dywedwch hynny'n glir mewn ysgrifen pan fyddwch yn anfon eich ymateb i'r ymgynghoriad (os ydych yn ymateb drwy'r post neu'r ebost) gan egluro pam mae angen cadw'r manylion hyn yn gyfrinachol. Os byddwch yn ymateb drwy Citizen Space, byddwn yn gofyn a hoffech i'ch ymateb gael ei drin yn gyfrinachol ai peidio. Os cawn gais am ddatgelu'r wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, byddwn yn cymryd eich esboniad i ystyriaeth yn llawn, ond oherwydd y gyfraith allwn ni ddim rhoi sicrwydd bod modd cadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni fydd nacâd cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG yn cael ei drin ohono'i hun fel cais am gyfrinachedd.

Defra yw'r rheolwr data mewn perthynas ag unrhyw ddata personol a roddwch, ac mae Siarter Gwybodaeth Bersonol Defra, sy'n rhoi manylion eich hawliau mewn perthynas â thrin data personol, i'w gweld yma: https://www.gov.uk/government/organisations/department-for-environment-foodruralaffairs/about/personal-information-charter

Cyfrinachedd a diogelu data

1. Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Llywodraeth yn: www.gov.uk/defra. Bydd atodiad i'r crynodeb o'r ymgynghoriad yn rhestru'r holl sefydliadau a ymatebodd ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill.

1.1 Caiff Defra gyhoeddi cynnwys eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn i drefnu ei fod ar gael i'r cyhoedd heb eich enw personol a'ch manylion cyswllt preifat (e.e., cyfeiriad cartref, cyfeiriad ebost, etc).

1.2 Os byddwch yn ateb 'Hoffwn' mewn ymateb i'r cwestiwn yn gofyn a hoffech i unrhyw beth yn eich ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, gofynnir ichi nodi'n glir pa wybodaeth yr hoffech ei chadw'n gyfrinachol ac egluro'ch rhesymau dros gyfrinachedd. Y rheswm am hyn yw y gallai gwybodaeth mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn fod yn agored i'w rhyddhau i'r cyhoedd neu bartïon eraill yn unol â'r gyfraith ar weld gwybodaeth (sef yn bennaf Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (EIRs) 2004), Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (Deddf 2000) a Deddf Diogelu Data 2018 (Deddf 2018)). Mae gennyn ni rwymedigaethau, yn bennaf o dan yr EIRs, Deddf 2000 a Deddf 2018, i ddatgelu

gwybodaeth i dderbynwyr penodol neu i'r cyhoedd mewn rhai amgylchiadau. O gofio hyn, byddai'ch esboniad o'ch rhesymau dros ofyn am gyfrinachedd ar gyfer y cyfan neu ran o'ch ymateb yn ein helpu i gydbwyso'r rhwymedigaethau hyn ynglŷn â datgelu o'i gymharu ag unrhyw rwymedigaeth ynglŷn â chyfrinachedd. Os cawn gais am yr wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi yn eich ymateb i'r ymgynghoriad, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch rhesymau dros ofyn am gyfrinachedd i'ch ymateb, ond allwn ni ddim gwarantu bod modd cadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad.

1.3 Os byddwch yn ateb 'Na hoffwn' mewn ymateb i'r cwestiwn yn gofyn a hoffech i unrhyw beth yn eich ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, byddwn yn gallu rhyddhau cynnwys eich ymateb i'r cyhoedd, ond fyddwn ni ddim yn trefnu bod eich enw personol a'ch manylion cyswllt preifat ar gael i'r cyhoedd.

1.4 Gall fod adegau pan fydd Defra yn rhannu'r wybodaeth a roddwch mewn ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys unrhyw ddata personol gyda dadansoddwyr allanol, a hynny er mwyn dadansoddi ymatebion i'r ymgynghoriad a darparu adroddiad ar y crynodeb o'r ymatebion yn unig.

1.5 Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal yn unol â dogfen Swyddfa'r Cabinet "Consultation Principles" sydd ar gael yma: https://www.gov.uk/government/publications/consultationprinciples-guidance.

1.6 Mae'n hysbysiad preifatrwydd diweddaraf wedi'i uwchlwytho fel dogfen gysylltiedig ochr yn ochr â'n dogfen ymgynghori.

1.7 Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion am y broses ymgynghori, a fyddech cystal â'u cyfeirio at:

Consultation on potential amendments to the PCBs Regulations,
Consultation Coordinator,
Defra 2nd Floor, Foss House, Kings Pool,
1-2 Peasholme Green,
York, YO1 7PX

Neu drwy'r ebost: consultation.coordinator@defra.gov.uk

Cwestiynau ymgynghori

Cyfrinachedd a manylion amdanoch chi

1. Hoffech chi i'ch ymateb fod yn gyfrinachol?
    a. Hoffwn
    b. Na hoffwn

2. Os ydych chi wedi ateb ‘Hoffwn’ i gwestiwn 1, rhowch eich rheswm.

3. Beth yw’ch enw chi?

4. Beth yw’ch cyfeiriad e-bost? Os byddwch yn rhoi'ch cyfeiriad e-bost, yna byddwch yn cael neges gydnabod yn awtomatig pan fyddwch yn cyflwyno'ch ymateb.

5. Ydych chi'n ymateb fel unigolyn ynteu ar ran sefydliad?
    a. Unigolyn
    b. Sefydliad

6. Pa fath o sefydliad ydych chi'n ymateb ar ei ran?
    a. Corff llywodraeth
    b. Sefydliad anllywodraethol (NGO)
    c. Awdurdod lleol
    d. Elusen
    e. Ymgynghoriaeth
    f. Amaethyddol
    g. Busnes bach neu feicro (llai na 50 o weithwyr, gan gynnwys gweithrediadau byd-eang)
    h. Busnes canolig (50-249 o weithwyr, gan gynnwys gweithrediadau byd-eang)
    i. Busnes mawr (250 neu fwy o weithwyr, gan gynnwys gweithrediadau byd-eang)
    j. Cymdeithas diwydiant
    k. Arall (rhowch y manylion)

7. Os ydych chi’n ymateb ar ran sefydliad, beth yw enw'r sefydliad?

8. Ble rydych chi / eich sefydliad wedi’ch lleoli a / neu yn gweithredu? (ticiwch bob un sy’n gymwys)
    a. Lloegr
    b. Cymru
    c. Yr Alban
    d. Gogledd Iwerddon
    e. Y tu allan i'r Deyrnas Unedig (UE)
    f. Y tu allan i'r Deyrnas Unedig (y tu allan i'r UE)
    g. Arall (rhowch y manylion)

Cwestiynau am yr offeryn statudol drafft

Mae'r cwestiynau a ganlyn yn ymwneud â'r diwygiadau arfaethedig i bedwar rheoliad yn y Rheoliadau PCBs. Mae'r diwygiadau hyn yn cael eu gwneud gan yr offeryn statudol drafft sy'n cyd-fynd â'r ymgynghoriad hwn.

Diwygio Rheoliad 4(3A)

Rydym yn bwriadu diwygio Rheoliad 4(3A) yn y Rheoliadau PCBs drwy Reoliad 2(2)(a) yn yr offeryn statudol drafft, lle mae cyfeiriad at 'PCBs' yn cael ei ddisodli gan gyfeiriad at ‘fluids containing PCBs’ fel y gwelir yn y tabl a ganlyn.

Diben y diwygiad hwn yw sicrhau eglurder ynghylch natur yr hylifau o fewn y trawsnewidydd.

Pan gyfeirir at grynodiad o 0.005% yn ôl pwysau, neu lai, yn adran 4(3A)(a), mae hwn yn grynodiad o PCBs o fewn yr hylifau sy'n cynnwys PCBs. Gan hynny, mae gofynion adran 4(3A)(a) yn ymwneud â thrawsnewidyddion y mae'n rhesymol tybio mewn perthynas â hwy eu bod yn cynnwys crynodiad o 0.005% yn ôl pwysau, neu lai, o PCBs o fewn yr hylifau sy'n cynnwys PCBs.

Yn yr un modd, pan gyfeirir at gyfaint o 0.05dm3 yn adran 4(3A)(b), mae hwn yn gyfaint o hylifau sy'n cynnwys PCBs, nid cyfaint o PCBs pur. Gan hynny, mae gofynion adran 4(3A)(b) yn ymwneud â thrawsnewidyddion y mae'n rhesymol tybio mewn perthynas â hwy eu bod yn cynnwys cyfanswm cyfaint o fwy na 0.05dm3 o unrhyw hylif sy'n cynnwys PCBs.

Testun cyfredol y Rheoliadau PCBs	Y testun newydd arfaethedig
4.— Prohibition on holding irrespective of registration (3A) Paragraph (3B) applies to a transformer in respect of which it is reasonable to assume that the fluids contain— (a) 0.005% by weight, or less, of PCBs; or (b) a total volume of 0.05dm3, or less, of PCBs.	**4.— Prohibition on holding irrespective of registration** (3A) Paragraph (3B) applies to a transformer in respect of which it is reasonable to assume that it contains — (a) 0.005% by weight, or less, of PCBs within the fluids containing PCBs; or (b) a total volume of 0.05dm3, or less, of fluids containing PCBs.

9. I ba raddau rydych chi’n cytuno bod y diwygiadau arfaethedig i reoliad 4(3A) o’r Rheoliadau PCBs yn llwyddo i egluro gofynion y rheoliad hwn?

    a. Cytuno’n Gryf
    b. Cytuno

c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
d. Anghytuno
e. Anghytuno'n Gryf
f. Wn i ddim
g. Gwell gen i beidio â dweud

10. Esboniwch eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 9, gan gyfeirio at dystiolaeth a / neu opsiynau eraill posibl lle bo'n berthnasol.

Diwygio Rheoliad 4(3C)

Rydym yn bwriadu diwygio Rheoliad 4(3C) yn y Rheoliadau PCBs drwy Reoliad 2(2)(b) yn yr offeryn statudol drafft, lle mae cyfeiriad at 'PCBs' yn cael ei ddisodli gan gyfeiriad at 'fluids containing PCBs' fel y gwelir yn y tabl a ganlyn.

Diben y diwygiad hwn yw sicrhau eglurder ynghylch natur yr hylifau o fewn y trawsnewidydd.

Pan gyfeirir at grynodiad o fwy na 0.005% ond dim mwy na 0.05% yn ôl pwysau, yn adran 4(3C) (a), mae hwn yn grynodiad o PCBs o fewn yr hylifau sy'n cynnwys PCBs. Gan hynny, mae gofynion adran 4(3C)(a) yn ymwneud â thrawsnewidyddion y mae'n rhesymol tybio mewn perthynas â hwy eu bod yn cynnwys crynodiad o fwy na 0.005% ond dim mwy na 0/05% yn ôl pwysau, o PCBs o fewn yr hylifau sy'n cynnwys PCBs.

Yn yr un modd, pan gyfeirir at gyfaint o 0.05dm3 yn adran 4(3C)(b), mae hwn yn gyfaint o hylifau sy'n cynnwys PCBs, nid cyfaint o PCBs pur. Gan hynny, mae gofynion adran 4(3C)(b) yn ymwneud â thrawsnewidyddion y mae'n rhesymol tybio mewn perthynas â hwy eu bod yn cynnwys cyfanswm cyfaint o fwy na 0.05dm3 o hylifau sy'n cynnwys PCBs.

Testun cyfredol y Rheoliadau PCBs	Y testun newydd arfaethedig
4.— Prohibition on holding irrespective of registration (3C) Paragraph (3D) applies to a transformer in respect of which it is reasonable to assume that the fluids contain— (a) more than 0.005% but no more than 0.05% by weight of PCBs; and (b) a total volume of more than 0.05dm3 of PCBs.	**4.— Prohibition on holding irrespective of registration** (3C) Paragraph (3D) applies to a transformer in respect of which it is reasonable to assume that it contains — (a) more than 0.005% but no more than 0.05% by weight of PCBs within the fluids containing PCBs; and (b) a total volume of more than 0.05dm3 of fluids containing PCBs.

11. I ba raddau rydych chi'n cytuno bod y diwygiadau arfaethedig i reoliad 4(3C) o'r Rheoliadau PCBs yn llwyddo i egluro gofynion y rheoliad hwn?

    a. Cytuno'n Gryf
    b. Cytuno
    c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    d. Anghytuno
    e. Anghytuno'n Gryf
    f. Wn i ddim
    g. Gwell gen i beidio â dweud

12. Esboniwch eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 11, gan gyfeirio at dystiolaeth a / neu opsiynau eraill posibl lle bo'n berthnasol.

Diwygio Rheoliad 4(4)(a)

Rydym yn bwriadu diwygio Rheoliad 4(4)(a) yn y Rheoliadau PCBs drwy Reoliad 2(2)(c) yn yr offeryn statudol drafft, lle mae cyfeiriad at 'PCBs' yn cael ei ddisodli gan gyfeiriad at 'fluids containing PCBs' fel y gwelir yn y tabl a ganlyn.

Diben y diwygiad hwn yw sicrhau eglurder ynghylch amcan dadhalogi trawsnewidyddion. Pan gyfeirir at gyfaint o 0.05dm3 (neu lai) yn adran 4(4)(a), mae hwn yn gyfaint o hylifau sy'n cynnwys PCBs, nid cyfaint o PCBs pur. Gan hynny, yn adran 4(4)(a) mae dadhalogi'n cael ei sicrhau pan fo cyfanswm cyfaint unrhyw hylif sy'n cynnwys PCBs yn cael ei leihau i 0.05dm3, neu lai.

Testun cyfredol y Rheoliadau PCBs	Y testun newydd arfaethedig
4.— Prohibition on holding irrespective of registration (4) A transformer in respect of which it is reasonable to assume that the fluids contain more than 0.05% by weight of PCBs shall be decontaminated under the following conditions– (a) the objective of the decontamination must be to reduce the content of PCBs in the fluid to [0.005% by weight, or less, or a total volume of 0.05dm3, or less];	**4.— Prohibition on holding irrespective of registration** (4) A transformer in respect of which it is reasonable to assume that the fluids contain more than 0.05% by weight of PCBs shall be decontaminated under the following conditions– (a) the objective of the decontamination must be to reduce the content of PCBs in the fluid to [0.005% by weight, or less, or to reduce the total volume of fluids containing PCBs to 0.05dm3, or less];

13. I ba raddau rydych chi'n cytuno bod y diwygiadau arfaethedig i reoliad 4(4)(a) o'r Rheoliadau PCBs yn llwyddo i egluro gofynion y rheoliad hwn?

    a. Cytuno'n Gryf
    b. Cytuno
    c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    d. Anghytuno
    e. Anghytuno'n Gryf
    f. Wn i ddim
    g. Gwell gen i beidio â dweud

14. Esboniwch eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 13, gan gyfeirio at dystiolaeth a / neu opsiynau eraill posibl lle bo'n berthnasol.

Diwygio Rheoliad 5(3)

Rydym yn bwriadu diwygio Rheoliad 5(3) yn y Rheoliadau PCBs drwy Reoliad 2(3) yn yr offeryn statudol drafft, lle mae cyfeiriad at 'PCBs' yn cael ei ddisodli gan gyfeiriad at 'fluids containing PCBs' fel y gwelir yn y tabl a ganlyn.

Nod y diwygiad hwn yw sicrhau eglurder ynghylch natur yr hylifau o fewn darn o offer at ddibenion labelu.

Pan gyfeirir at grynodiad o 0.005% yn ôl pwysau, neu lai, yn adran 5(3)(a), mae hwn yn grynodiad o PCBs o fewn yr hylifau yn yr offer. Gan hynny, pan fo'n rhesymol tybio bod yr hylifau o fewn yr offer yn cynnwys 0.005% yn ôl pwysau, neu lai o PCBs caniateir i hyn gael ei labelu fel "PCBs contaminated <0.005% or <0.05dm3".

Yn yr un modd, pan gyfeirir at gyfaint o 0.05dm3 (neu lai) yn adran 5(3)(b), dyma gyfaint o hylifau sy'n cynnwys PCBs, nid cyfaint o PCBs pur. Gan hynny, pan fo'n rhesymol tybio bod yr offer yn cynnwys cyfanswm cyfaint o 0.05dm3, neu lai, o hylifau sy'n cynnwys PCBs, caniateir i hyn gael ei labelu fel "PCBs contaminated <0.005% or <0.05dm3".

Testun cyfredol y Rheoliadau PCBs	Y testun newydd arfaethedig
5.— Labelling of contaminated equipment (3) Equipment in respect of which it is reasonable to assume that the fluids contain— (a) 0.005% by weight, or less, of PCBs; or (b) a total volume of 0.05dm3, or less, of PCBs, may be labelled as “PCBs contaminated <0.005% or <0.05dm3.	**5.— Labelling of contaminated equipment** (3) Equipment in respect of which it is reasonable to assume that — (a) within the equipment the fluids contain 0.005% by weight, or less, of PCBs; or (b) the equipment contains a total volume of 0.05dm3, or less, of fluids containing PCBs, may be labelled as “PCBs contaminated <0.005% or <0.05dm3.

15. I ba raddau rydych chi’n cytuno bod y diwygiadau arfaethedig i reoliad5(3) o’r Rheoliadau PCBs yn llwyddo i egluro gofynion y rheoliad hwn?

    a. Cytuno’n Gryf
    b. Cytuno
    c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    d. Anghytuno
    e. Anghytuno’n Gryf
    f. Wn i ddim
    g. Gwell gen i beidio â dweud

16. Esboniwch eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 15, gan gyfeirio at dystiolaeth a / neu opsiynau eraill posibl lle bo’n berthnasol.

Cyffredinol

17. Cafodd effaith ariannol y polisi hwn ei hasesu a'i chyhoeddi mewn asesiad effaith yn 2020. Nid ydym yn rhag-weld y byddai'r diwygiadau eglurhaol arfaethedig yn yr offeryn statudol drafft hwn yn creu unrhyw faich ariannol ychwanegol i fusnesau'r Deyrnas Unedig. A oes gennych unrhyw dystiolaeth i awgrymu fel arall? Os oes, rhowch y manylion, gan gyfeirio'n benodol at unrhyw dystiolaeth o effeithiau neu gostau a ysgwyddir.

18. Defnyddiwch y lle hwn os oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu rhannu mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn a'r diwygiadau arfaethedig.